Meddai Iesu wrtho, “Y mae gan y llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr.”
**(Luc 9:58)**

Mae’r geiriau hyn yn dangos y gost enfawr o fod yn Waredwr y byd. Daeth gwrthodiad i Grist o sawl cyfeiriad, ac mae hynny’n ein hatgoffa ni o’r gost o fod yn un o’i ddisgyblion.

## Wynebu Jerwsalem

Mae’r cyd-destun yn dweud wrthym bod Iesu wedi ‘troi ei wyneb’ i Jerwsalem (51). Yn llythrennol, mae’r geiriau Groeg yn dweud fod yr Arglwydd wedi ‘gosod’ neu ‘sefydlu’ ei wyneb. Roedd hyn yn f’atgoffa o’r taflegrau erchyll, modern sydd yn cael eu cloi i fynd at darged, er fod hwnnw lawer o filltiroedd i ffwrdd. Roedd Iesu wedi gosod ei fryd, wedi cloi ei feddwl ar darged annymunol y groes. Mae’n dangos ei fod wedi concro pob brwydr fewnol, pob ofn ac arswyd, a’i fod yn ei gynnig ei hun yn ddewr i farwolaeth.

Mae hyn, felly, yn ein hatgoffa ni o’r agwedd meddwl sydd ei angen arnom i fod yn ddisgybl i Grist. Mae’n rhaid i’n meddyliau fod wedi eu hoelio arno Fe ac ar ei wasanaeth, ac wedi ystyried a chyfri’r gost.

## Ymgeisydd brwd

Faint o weinidogion a swyddogion eglwysig fyddai’n meddwl ddwywaith cyn derbyn ymgeisydd fel hwn i fod yn aelod eglwysig, neu’n weithiwr Cristnogol hyd yn oed. Mae’n ymddangos yn ddelfrydol! Onid dyma’r math o bobl yr ydym yn gweddïo am eu cael?

Yn ôl Mathew mae’n un o’r ysgrifenyddion. Mae’n berson deallus, felly. Ar ben hynny, gan ei fod yn perthyn i grŵp oedd mor wrthwynebus i Iesu, mae’n rhaid ei fod o ddifrif. Mae’n ostyngedig. Er ei fod yn athro yn Israel, mae’n awyddus i gydnabod a dilyn Iesu fel ei athro. Mae’n frwd. Mae’n barod i ddilyn ble bynnag bydd y Meistr yn arwain.

Does dim lle i amau dilysrwydd y dyn yma, ond mae ateb Iesu’n dangos nad yw wedi ystyried yn llawn beth yw goblygiadau dilyn Mab y Dyn.

Fel Pedr yn addo rhoi ei einioes dros ei Arglwydd ar noson y Swper Olaf, mae’n bosibl i ni fod yn rhy hyderus o’n hymrwymiad ein hunain, heb wir ystyried y gost.

## Y gost

Mae Iesu'n ateb y darpar ddisgybl trwy ddisgrifio natur ei hynt yn y byd. Roedd gan greaduriaid fel y llwynog a'r aderyn gartref i orffwys ynddo a magu eu cywion. Cawsom ni wennol yn nythu yng nghesail ffenstr y llofft rai blynyddoedd yn ôl. Roeddwn i'n llawn edmygedd o'r adeiladwaith cywrain oedd yn herio disgyrchiant.

Yn aml iawn, doedd dim derbyniad, na chartref na chroeso i'r Duw-ddyn ar ei deithiau. Mae hyn yn ein hatgoffa **"fel y bu iddo, ac yntau'n gyfoethog, ddod yn dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef"** (2 Cor.8.9).

Doedd dim lle mewn llety adeg ei eni ym Methlehem; roedd newydd gael ei wrthod gan y Samariaid (adn. 52) am ei fod ar ei ffordd i Jerwsalem; fe'i gwrthodwyd yn Jwdea (Ioan 5.18) a Galilea (Ioan 6.66). Roedd pobl Gadara'n ymbil arno i adael eu bro, a hynny ar ôl iddo iacháu'r dyn cythreulig, ond peri colled i'r ffermwyr moch. Ni chafodd ei dderbyn gan 'ei eiddo'i hun', ac ar y groes fe'i gadawyd gan y nef, hyd yn oed (Math.27.46).

## Cyfri'n ofalus

Mae geiriau Iesu yn yr adnod hon yn debyg i'w eiriau yn Luc 14.28-33. Yno mae'n defnyddio dau ddarlun i ddangos pwysigrwydd cyfrif y gost cyn rhuthro i addo hunanaberth drud fel disgybl:

### *Adeiladu tŵr*

Peth gwirion fyddai dechrau gosod sylfaen a chodi waliau cyn gwneud yn siŵr fod digon o arian i orffen y gwaith. Byddai'n ennyn gwatwar cymdogion. Mae'r Ffydd Gristnogol yn derbyn yr un gwatwar pan mae pobl yn gwneud proffes fawr o'r Ffydd ond yn gadael y llong yng nghanol y fordaith. Nid dechrau'r daith yn unig sydd yn bwysig, ond rhaid dyfalbarhau hyd y diwedd.

### *Brenin a rhyfel*

Pa frenin fyddai'n mentro i ryfel heb wybod bod ganddo ddigon o filwyr i gystadlu, o leiaf, gyda'r gelyn? Byddai'n gofyn am grasfa a cholled enfawr o fynd i ryfel ag adnoddau prin.

Dydy'n Harglwydd ddim am inni ruthro ymlaen fel disgyblion heb gyfri'r gost, ac yna cael ein siomi a llosgi'n bysedd maes o law. Roedd Ef wedi cyfrif cost ei genhadaeth i'r byd, a rhaid i ni gyfrif cost ei ddilyn i'r nef. Dydym ni ddim yn gwybod beth ddigwyddodd i'r ysgrifennydd; gobeithio wir ei fod wedi dilyn Iesu'n frwd ar ôl sylweddoli'r gost. Boed i ninnau wneud hynny hefyd!